

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022

YN BRESENNOL: Cyngorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff Evans, Neville Evans, Douglas M Fowle, Glyn Haynes, A M Jones, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, G O Jones, R LI Jones, Jackie Lewis, Alun W Mummery, Derek Owen, Llio A Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams ac Arfon Wyn.

WRTH LAW: Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,
Pennaeth Prifffyrdd, Eiddo a Gwastraff,
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,
Pennaeth Gwasanaethau Tai,
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)
Swyddog Cyfathrebu (GJ),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

HEFYD YN BRESENNOL: Mr John R Jones – Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Dr Rhys Davies – Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau (Arsylwyr)

YMDDIHEURIADAU: Councillors T LI Hughes MBE, Llinos Medi, John I Jones, Euryr Morris, Pip O'Neill, Margaret Murley Roberts, Alwen Watkin and Liz Wood.

Prif Weithredwr

Yn absenoldeb Is-gadeirydd y Cyngor Sir, etholwyd y Cyngorydd Glyn Haynes yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

1. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi, 2022 yn gywir, yn amodol ar gynnwys enw'r Cyngorydd Non Dafydd yn yr aelodau oedd yn bresennol.

2. DATGANIAD O DDIDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 – Hunan Aseiad Corfforaethol 2022 ac Eitem 5 - Adroddiad Perfformiad Blyneddol 2021/22.

Bu i'r Cynghorydd Robin Williams ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 – Hunan Aseiad Corfforaethol 2022 ac Eitem 5 - Adroddiad Perfformiad Blyneddol 2021/22.

3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Estynnwyd llongyfarchiadau mawr i Meinir Thomas o Langefni sydd wedi cynrychioli Cymru yng Ngharfan Hoci Merched dros 55 oed yng Nghwpan y Byd yn Ne Affrica yn ddiweddar. Mae hefyd yn chwarae pêl-droed i Dîm Merched Tref Amlwch.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i Steven Roberts, Rob Owen, Alan Whiston a Martin Jones o Dîm Pêl-droed Cerdded Amlwch, a gynrychiolodd Cymru yn nhîm cerdded dros 50 oed yn Bordeaux yn ddiweddar.
- Estynnwyd llongyfarchiadau i John Pritchard o Amlwch a gynrychiolodd dîm cerdded Cymru dros 60 oed yn Her y Chwe Gwlad.

Ar ddydd Gwener, 21 Hydref, cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Carwyn Jones at y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i gau Pont Menai i'r holl draffig, a hynny ar unwaith, yn unol â chyngor peirianwyr strwythurol oherwydd materion strwythurol difrifol. Ers cau'r bont, mae swyddogion o'r Cyngor Sir yn mynychu cyfarfodydd dyddiol gyda Llywodraeth Cymru ynghyd â sefydliadau partner sy'n cynnwys y sector trafniadaeth, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru, y Bwrdd Iechyd Lleol, colegau a'r gwasanaethau brys. Fe wnaeth y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Mr Lee Waters AS ddatganiad llawn i'r Senedd yng Nghaerdydd gan ddweud bod trafodaethau'n digwydd ar y posibilrwydd o agor Pont Menai i'r gwasanaethau brys mewn argyfwng. Ar hyn o bryd mae'r bont ar agor i gerddwyr a beicwyr sy'n cerdded gyda'u beics ac mae Llywodraeth Cymru'n monitro'r effaith ac wedi ymrwymo i agor y bont cyn gynted â phosib pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny.

4. HUNAN ASESIAD CORFFORAETHOL 2022

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Hydref, 2022 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Cyflwynodd deilydd Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer yr adroddiad gan ddweud, fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 bod dyletswydd ar y Cyngor i gynnal adolygiad o'i berfformiad a gwneud yn siŵr ei fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, ei fod yn defnyddio ei adnoddau'n

ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol a bod ei drefn llywodraethu'n effeithiol ar gyfer sicrhau'r materion a nodir uchod, yn ogystal â mewn cysylltiad â'r holl flynyddoedd ariannol sy'n destun adroddiad gan amlinellu ei gasgliadau o safbwynt pa raddau y bodlonir y gofynion perfformiad. Ystyriwyd yr Hunanasesiad drafft ar gyfer 2021/2022 yn wreiddiol gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2022 ac wedi hynny gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf, 2022. Mabwysiadwyd y drafft gan y Cyngor llawn fel drafft gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi, 2022 cyn gwahodd sylwadau pellach gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 20 Hydref, 2022 gyda 2 sylw arall y bwriedir eu cynnwys fel y nodir o fewn yr adroddiad.

Dywedodd Grŵp yr Wrthblaid fod pryderon wedi'u codi o'r blaen ynglŷn â system ffôn y Cyngor a'i bod yn dal i gael ei hystyried yn annigonol wrth ateb galwadau gan y cyhoedd. Dywedodd Deilydd Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer bod gwelliannau wedi'u nodi yn y ffordd y caiff y system ffôn ei gweithredu a bod hynny wedi'u nodi yn yr adroddiad hunan asesiad gan yr Uwch Dîm Arwain.

PENDERFYNWYD:-

- **Cytuno â'r addasiadau a restrir uchod yn yr adroddiad ac awdurdodi swyddogion i ddiwygio'r drafft terfynol;**
- **Mabwysiadu'r Hunan Asesiad Corfforaethol 2022 a'i anfon at y rhai y rhestr ganlynol o fewn cyfnod o bedair wythnos yn dilyn y cyfarfod hwn fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 :-**
 - **Archwilydd Cyffredinol Cymru;**
 - **Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;**
 - **Gweinidogion Cymru.**

(Bu i'r Cyngorydd Douglas M Fowie ymatal rhag pleidleisio)

5. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 19 Hydref, 2022 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Cyflwynodd Deilydd Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer yr adroddiad gan ddweud, yn unol â'r Cyfansoddiad, ei bod yn ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae'r adroddiad yn ddogfen sy'n dadansoddi'r perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau a amlinellwyd gan y Cyngor.

Cododd Grŵp yr Wrthblaid y premiwm ar eiddo gwag sy'n cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd a'r angen am system hyblyg er mwyn ymestyn y cyfnod pan mae'n rhaid cwblhau'r gwaith adnewyddu cyn bod y premiwm llawn yn daladwy. Mewn ymateb, dywedodd Deilydd Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer fod y cyfnod ar gyfer gwaith adnewyddu ar eiddo gwag wedi cael ei ymestyn i 2 flynedd oherwydd ei bod yn anodd cael deunyddiau adeiladu ac adeiladwyr i wneud y gwaith.

Cododd Grŵp yr Wrthblaid fater pellach, sef cyflwr gwael rhai ffyrdd gwledig ar yr Ynys. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff fod gwariant yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer ffyrdd Dosbarth A, B ac C gan mai'r ffyrdd hynny a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o'r traffig.

PENDERFYNWYD mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/2022.

6. AMSERU CYFARFODYDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 4 Hydref, 2022 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Yn ôl Cadeirydd y Gwasanaethau Democrataidd, dywedodd y Cynghorydd Keith Roberts, yn unol yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 6(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gynnal arolwg o Aelodau mewn perthynas â'r amseroedd y cynhelir cyfarfodydd awdurdod lleol. Anfonwyd arolwg at yr holl aelodau i gael eu barn. Mae'r ymatebion i'r arolwg wedi'i cynnwys yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD derbyn argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref, 2022 fel a ganlyn: -

- **bod yr amseroedd cychwyn presennol yn cael eu cadw ar gyfer cyfarfodydd cyffredin y Cyngor Sir (2.00 p.m.); Pwyllgor Gwaith (10.00 y bore) a dylai'r holl bwyllgorau eraill (2.00 p.m.) yn amodol ar amseroedd cychwyn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, a'r Pwyllgor Safonau, gael eu penderfynu gan y pwyllgorau hynny, yn dilyn cyngor gan eu prif swyddogion;**
- **Ile bo'n bosibl, dylid cynnal cyfarfodydd pwyllgor ar ddydd Mawrth, dydd Mercher a dydd lau, gan gyfuno gwaith a chyfrifoldebau eraill gyda rôl aelod;**
- **bod y Cyngor yn cymryd y cyfle i godi ymwybyddiaeth fod cymorth ariannol ar gael tuag at gostau gofal a chymorth personol; a**
- **nodi, yn sgil canllawiau statudol drafft a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru, fod bwriad i gynnal adolygiad pellach o amseroedd, amllder a hyd cyfarfodydd pwyllgorau yn gynnar yn 2024.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.05 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS
CADEIRYDD**